**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Gorffennaf 27ain 2015 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley (cadeirydd), Rob Parkes, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood, Shereen Devine, Catherine Jones, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees; Geraint Williams (hwyr),

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**52.** **Cyflwyniad amlinelliad potensuial cydweithio.** Croesawodd y cadeirydd Lynne Wilson ac fe'i gwahoddodd i annerch y cyfarfod.

**53.** Cyflwynodd Mr Tom Williams, ar ran Gymdeithas Gideon, gopi o'r Beibl i'r Maer, y Cynghorydd Raymond Bartley. Rhoddodd Mr Williams amlinell fer o waith y Gymdeithas. Dywedodd Mr Williams, am ei bod hi'n achlyur arbennig gyda 5ed cygfmnod y Cyng Bartley yn y swydd, cyflwynodd gopi o'r i bob aelod o'r cyngor.Diolchodd y Maer i Mr Williams am y cyflwyniad.

**54.** **Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**55.** **Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol

(1) Cyng Geraint Williams - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(2) Cyng Raymond Bartley - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(3) Cyng Colin Hughes - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(4) Cyng Colin Hughes - eitem agenda 17 - Mainc Goffa Robert Arthur Jones
(5) Cyng Catherine Jones - eitem agenda 17 - Mainc Goffa Robert Arthur Jones

**36.** **Derbyniwyd a chymeradwywyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Fai 18fed 2015.**

**37.** **Materion yn codi:** (1) Llywodraethwyr Ysgol y Santes Ffraid: Cadarnhaodd y Cyng Geraint Williams y byddai'n parhau fel llywodraethwr.
(2) Inffyrmari Dinbych. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb e-bost a dderbyniwyd mewn ateb i lythyr y cyngor ynglŷn ag archifau'r Inffyrmari - nodwyd yr e-bost.

**38.** **Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd a nodwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer

**39.** **Llythyrau a Hysbysiadau:** 1. Cytunwyd i nodi pedair eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd

2. Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Guide Dogs Cymru. Tynnodd y Cyng Colin L Hughes sylw at y llythyr a chyfeiriodd at broblemau oedd yn gysylltiol gyda cherbydau wedi eu parcio ar balmentydd ac yn achosi rhwystr. Yn dilyn trafodaeth fer cytunwyd i gysylltu â'r Heddlu a ChSDd am eu dehongliad ynglŷn â cherbydau yn parcio ar balmentydd ac yn achosi rhwystr.

**40.** **Cynllunio**: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r cais canlynol a dderbyniwyd am ganiatâd cynllunio:

Visage Beauty, Ffordd y Rhyl

**41.** **Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor.** (1) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fehefin 15fed 2015.
(2) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Fehefin 15fed 2015.

**42.** **Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor: Nid oedd unrhyw gofnodion / adroddiadau.**

**43.** **Adroddiadau**: (1) <u>Goruchwyliaeth Neuadd y Dref.</u> Dywedodd clerc y dref fod goruchwyliaeth y neuadd yn symud ymlaen yn esmwyth. Gobeithir y bydd y drws diogelwch newydd ar waelod y prif risiau wedi ei osod yn y dyfodol agos.

(2) <u>Arwyddion yr A55.</u> Cafwyd adroddiad gan glerc y dref ar gyfarfod diweddar - nid oedd symud ymlaen ar hyn o bryd. Roedd disgwyl am wybodaeth oddi wrth Cadw ynglŷn â Chestyll Dinbych a Rhuddlan. Unwaith roedd yr wybodaeth ar gael bydd modd cwblhau'r cais yn fanwl gywir.

(3) <u>CCTCGC.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd nodyn byr clerc y dref am gyfarfod diweddar.

(4) <u>Goleuadau Nadolig.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref ar gyfarfod diweddar.

(5) <u>Carnifal Dinbych.</u> Dywedodd y Cyng Roy Tickle fod paratoadau ar eu hanterth

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**44.** **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. <u>Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley:</u> (1) Cyn safle Kwik Save - cynlluniau i'w cyflwyno cyn bo hir. Home Bargains yn cymryd tair acer ac Aldi pedair acer. Tair o unedau adwerthu ar Stryd y Dyffryn. Un siop anifeiliaid anwes ar y safle. Bydd Aldi yn cyflogi 50 o swyddi llawn amser a rhan amser - dim cytundebau oriau sero. (2) Cyn safle Ysbyty Gogledd Cymru - mynegwyd pryderon eithafol gan GSDd - yn dal i ddisgwyl canlyniadau'r ddau ymholiad - gwnaed cynrychioliadau eithafol i Lywodraeth Cymru a'r Prince's Rgeneration Trust. (3) Cyn Swyddfa'r Heddlu ar Stryd y Dyffryn - dangoswyd llawer o ddiddordeb a derbyniwyd dau gynnig. (4) Parc Isaf - Cynhwysydd wedi ei brynu a'i osod ar y safle. (5) Bwriad i ddatblygu tai yn y Brwcws - cynhaliwyd amryw o gyfarfodydd rhwng y trigolion a CSDd - cylchredwyd cyfarwyddyd drafft.

2. <u>Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Geraint Williams:</u> (1) Cyn safle Kwik Save - dwy fynedfa gyflenwydd oddi ar Lôn Goch. I edrych ar y llwybr troed drwy Gae Fron. (2) Astudiaeth parcio - CSDd yn edrych ar ehangu amser aros yn y mannau parcio o hanner awr i awr a hefyd i gynyddu gorfodaeth. Defnydd bychan iawn oedd yn cael ei wneud o'r maes parcio aml lawr yng nghanol yr wythnos ac ar ddydd Sadwrn. I edrych ar arwyddion electroneg ar gyfer y meysydd parcio mwy drwy'r sir. Hefyd i edrych ar wella arwyddion o'r meysydd parcio i'r dref. Maes parcio Lôn Crown i'w newid o aros dros amser hir i aros dros amser byr.

(3) Ysgol Howell wedi ei brynu gan IQ Education Group. (4) Dim newid i fannau aros bysiau ynghanol y dref - dim ystadegau i ddangos unrhyw ddamweiniau neu anafiadau.
(5) Llwybrau graeanu i newid - i gael gwared a rhai. (6) Lôn Ganol - derbyniwyd £750,000 ar ôl gwerthu'r safle - i edrych ar sut roedd yr arian i'w ddefnyddio gan yr ymddiriedolaeth. Cabinet CSDd oedd yr ymddiriedolaeth ac yn gweithio gyda Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Unwaith roedd mewn bodolaeth bydd ymddiriedolwyr newydd yn cael eu penodi.
(7) Llwybr beicio i fod yn fater parhaol ar agenda cyfarfodydd MAGS.

3. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Colin Hughes: (1) Torri glaswellt yn Ninbych Uchaf.
(2) Fforwyr Trefol ar safle Ysbyty Gogledd yn achosi problemau yn ardal Cae Dai.
(3) Tu cefn i Bryn Seion bellach yn daclus. (4) Problemau sbwriel yn Ninbych Uchaf.

Trafodwyd nifer o agweddau'r tri adroddiad a chafwyd eglurhad fel oedd yn briodol. Derbyniwyd sylw ynglŷn â sbwriel ar Lôn Brombil - cytunwyd i gysylltu â CSDd i ofyn a oedd gorfodaeth ar bobl yn gadael sbwriel. Hefyd cytunwyd i sbwriel fod yn eitem agenda yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Amgylched a Chyllid.

**45. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | CSDd cyfraniad cyntaf neuadd y dref<br>(Rhif siec 005656) | - | £9,250.00 |
| (2) | Ernest Martin - cloi ac agor giât gardd Dr E P Garden a phrynu dau glo newydd<br>(Rhif siec 005657) | - | £63.00 |
| (3) | Clerc y Dref - costau teithio (Conwy)<br>(Rhif siec 005658) )(i'w rannu a'r Cyng Roy Tickle gan y defnyddiwyd dau gerbyd) | - | £21.60 |
| (4) | Zen Internet - darpariaeth ADSL (Gorffennaf)<br>(Rhif siec 005659) | - | £18.37 |
| (5) | Clwyd Nash - ad-daliad costau deunydd storfa i'r Archif Gymunedol<br>(Rhif siec 005660) | - | £37.92 |

Cyfanswm taliadau: £9,390.89

**46.** **CSDd -** Cymhwysydd storio a deunydd chwaraeon. Atgoffodd clerc y dref y cyfarfod fod y mater yma wedi ei ohirio o'r cyfarfod ar Ebrill 27ain a Mai 18fed. Cyfeiriwyd at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth GSDd ac yn arbennig at y rhan lle'r oedd yn gofyn am i'r cynhwysydd gael ei leoli mewn parc. Cadarnhaodd clerc y dref fod y cymhwysydd a pheth offer wedi ei dderbyn. Cytunwyd y byddai lleoli mewn parc yn anodd oherwydd anfodolaeth goruchwyliaeth. Cytunwyd i ofyn i Ganolfan Hamdden Dinbych. Unrhyw awgrymiadau eraill gan aelodau i'w gyrru i glerc y dref.

**47.** **Carnifal Dinbych.** Dywedodd y cyng Roy Tickle y bydd y cyngor tref a phresenoldeb ar y cae a gofynnodd am gymorth gan yr aelodau - mynegodd nifer o'r aelodau ddiddordeb.

**48.** **Drysau'n Agored yn Ninbych.** Dywedodd y Cyng Medwyn Williams nad oedd Cymdeithas Ddinesig Dinbych bellach yn medru trefnu'r digwyddiad. Gyrrwyd y grant o £1,000 a roddwyd gan y cyngor tref yn ôl. Rhestrwyd nifer o adeiladau a bydd yr amgueddfa ar agor. Aeth y Cyng Williams ymlaen i awgrymu y dylid ffurfio pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r cyngor tref i drefnu'r digwyddiad ac roedd yn barod i drefnu cyfarfod o'r fath. Roedd Grŵp Cynefin wedi cynnig £250 tuag at y digwyddiad. Y prif gostau yn y gorffennol oedd cyflogi cydlynydd a chyhoeddi'r llyfryn ar gyfer Drysau'n Agored. Byddai'n bosibl i gyhoeddi llyfryn symlach ar lai o gost. Byddai angen ymestyn y grŵp i dynnu i mewn rhai oedd â diddordeb yn y digwyddiad. Y Cyng Catherine Jones, Margaret Bowe, Raymond Bartley a Mark Young i gynrychioli'r cyngor. Y Cyng Medwyn Williams i drefnu cyfarfod.

**49.** **Mainc Goffa Robert Arthur Jones.** Dywedodd clerc y dref fod trwydded ar gyfer y fainc wedi ei derbyn ac wedi ei harwyddo gan glerc y dref a Gary Williams CSDd. Roedd CSDd wedi rhoi heibio'r ffi ar gyfer y drwydded. Cadarnhaodd clerc y dref fod y fainc wedi ei hychwanegu at yswiriant y cyngor heb gost ychwanegol.

**50.** **Cofrestr Diddordebau'r Aelodau.** Ar gais glerc y dref gohiriwyd yr eitem agenda yma.

**51.** **Adroddiad Ymchwil - Ymwybyddiaeth y cyhoedd am gynghorau tref a chymuned yng Nghymru.** Cytunwyd i glerc y dref roddi manylion am y cyswllt i aelodau a hefyd i gopi caled fod ar gael.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.29 o'r gloch.

Arwyddwyd:......................................................... (cadeirydd)

Dyddiad:.........................